# Swydd-ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Athro/Athrawes Cyfnod Allweddol 2 |
| **Adran/Adain** | Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd |
| **Graddfa SCP a Chyflog** | Prif Raddfa Gyflog Athrawon<br>£30,742 - £47,340 |
| **Pwrpas y Swydd** | Blynyddoedd 3 - 6 |
| **Lleoliad** | Ysgol Gymunedol Syr John Rhys, Ponterwyd, Aberystwyth, Ceredigion |
| **Oriau Gwaith** | 2.5 diwrnod yr wythnos<br>(Mae'r Pennaeth yn barod iawn i drafod opsiynau posib sy'n addas i'r ymgeisydd llwyddiannus) |
| **Math o Gontract** | Cyfnod Penodedig |
| **Hyd y Contract** | Medi 2024 – Mawrth 2025 |
| **Teitl swydd rheolwyr Llinell Uniongyrchol** | Pennaeth |
| **Cyfrifoldebau Goruchwyliol/Rheoli – os yn gymwys** | |
| **Dyletswyddau a chyfrifoldeb** | • Cydweithio i gynllunio, gweithredu a chyflwyno cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol ac wedi ei wahaniaethu ar gyfer disgyblion<br>• Darparu safon addysg o'r radd flaenaf ynghyd â phrofiadau cyfoethog, yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac annog a chynnal pob disgybl i wireddu eu potensial<br>• Monitro cynnydd cyflawn a datblygiad disgyblion yn unol â gofynion y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad o fewn Cwricwlwm i Gymru ynghyd â'r Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, ac ymateb yn weithredol i'r canfyddiadau<br>• Rhannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i ddarparu a monitro cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol disgyblion a chefnogi eu twf academaidd<br>• Cydweithio i gynllunio, darparu a chynnal gweithgareddau sy'n hybu diwylliant a Chymreictod |

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd** | Llywodraethwyr a Phennaeth Ysgol Gymunedol Syr John Rhys |